

I'w ryddhau ar unwaith – 00.01 9 Mehefin 2021

## Ymateb elusen Bild i ymchwiliad BBC Wales i honiadau cywilyddus o gamdriniaeth ac esgeulustod yn ysgol arbennig breswyl Tŷ Coryton

Rydym wedi synnu clywed am yr achosion annifyr o gam-drin hawliau dynol plant agored i niwed yn ysgol arbennig breswyl Orbis Tŷ Coryton yng Nghaerdydd, yr adroddwyd amdanynt gan [BBC Wales heddiw \(9 Mehefin 2021\)](#).

Mae'r honiadau'n datgelu diwylliant tocsig sy'n llwyr anwybyddu gwella ansawdd bywyd neu gynnal hawliau dynol sylfaenol. Dioddefodd plant a phobl ifanc gamdriniaeth ac esgeulustod cywilyddus gan yr union bobl a ddylai fod yn gofalu amdanynt. Daw'r sgandal ddeng mlynedd ar ôl i'r BBC ddatgelu camdriniaeth sefydliadol debyg yn Winterbourne View.

Yn Nhŷ Coryton, honnir bod plant wedi cael eu cosbi am fod yn awtistig neu gael mislif. Mae profiadau o'r fath yn debygol o fod yn drawmatig iawn i blant. Roedd gorddibyniaeth ar arferion ataliol hefyd, gydag ofnau y gallai plant farw o ganlyniad i ataliaeth gorfforol ar wastad y cefn: "Mae plentyn yn mynd i farw yno... dyna beth sy'n mynd i ddigwydd, yn y diwedd" (chwythwr chwiban Tŷ Coryton).

Rydym yn pryderu'n fawr am y diffyg dealltwriaeth a'r gofid a achosir gan arferion o'r fath. Os yw plentyn yn dangos gofid neu ymddygiad sy'n peri pryder, mae'n amlwg yn cyfleu nad yw ei anghenion wedi cael eu bodloni, ac yn dangos angen dybryd i newid yr amgylchedd neu'r ffordd y mae'n cael ei gynorthwyo i atal gofid o'r fath rhag parhau.

Wrth sôn am y datblygiadau sy'n peri pryder yn Nhŷ Coryton, dywedodd Prif Swyddog Gweithredol Bild, Ben Higgins: "Mae'n peri gofid mawr, deng mlynedd ar ôl Winterbourne View, bod cymdeithas yn parhau i fethu diogelu urddas a hawliau dynol sylfaenol ei phobl fwyaf agored i niwed. Mae gormod o blant agored i niwed yn cael eu niweidio'n seicolegol ac yn feddyliol trwy'r orddibyniaeth ar arferion ataliol mewn rhai ysgolion. Mae angen dybryd am newid radicalaidd i'r system er mwyn atal hyn rhag digwydd byth eto."

Ymddangosodd yr Athro Edwin Jones, Arweinydd Strategol Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol yn Bild, ac athro gwadd ym Mhrifysgol De Cymru – yn narn newyddion BBC Wales. Ychwanegodd: "Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu'r Fframwaith Lleihau Arferion Ataliol newydd ar unwaith i sicrhau bod achosion ofnadwy o gamdriniaeth ac esgeulustod yn destun ymchwiliad llawn, yn derbyn sylw ac yn cael eu dileu yn y pen draw. Rydym yn gwybod mai'r ffordd fwyaf cynhwysfawr o fynd i'r afael â phroblemau, fel y rhai rydym yn clywed amdanynt o Dŷ Coryton, yw cynnwys arbenigwyr trwy brofiad yn y broses o ddatblygu canllawiau – gan gynnwys pobl ag anabledau dysgu a'u teuluoedd. Cydnabyddir hyn yn gyffredin yn genedlaethol ac yn rhyngwladol."

*“Mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rôl allweddol wrth gydgyhyrchu’r Fframwaith Lleihau Arferion Ataliol gyda phobl ag anableddau dysgu, rhieni a gofalwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill – ond bu oedi o ran ei weithredu o ganlyniad i’r pandemig Covid-19. Gweithredu’r Fframwaith hwn nawr fyddai’r cam mwyaf pendant a phriodol y gallai Llywodraeth Cymru ei gymryd ar lefel strategol, ar yr un pryd â sicrhau bod ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal i’r honiadau yn Nhŷ Coryton. Y gwirionedd trist yw na allwn dybio bod sefyllfaoedd fel hyn yn rhai unigol, ar wahân. Mae hyn yn annerbyniol yn yr oes sydd ohoni.”*

Mae Bild yn galw am:

- **Weithredu’r Fframwaith Lleihau Arferion Ataliol ar unwaith yng Nghymru**, yn dilyn gwaith ymgynghori blaenorol a chydgyhyrchu gyda phobl ag anableddau dysgu, teuluoedd a’r Rhwydwaith Lleihau Ataliaeth Gorfforol (RRN). Mae’r RRN yn dwyn ynghyd pobl sydd wedi ymrwymo i ddileu arferion ataliol diangen ar draws addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Gofyniad statudol i ysgolion gofnodi’r holl arferion ataliol, adrodd amdanynt a’u lleihau** (fel y gwelwyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr). Ystyrir ei bod yn hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn meddwl am gryfhau’r Fframwaith Lleihau Arferion Ataliol ymhellach trwy ei wneud yn gyfraith ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Ar hyn o bryd, mae diffyg gofynion cyfreithiol o’r fath yn gadael plant mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod.
- **Arweinyddiaeth gref a rheoleiddio gwell** o arferion ataliol mewn lleoliadau ysgol. Dylai ysgolion ddefnyddio hyfforddiant ataliaeth gorfforol yr ardystiwyd ei fod yn cydymffurfio â [safonau hyfforddiant moesegol y Rhwydwaith Lleihau Ataliaeth Gorfforol](#) yn unig. Mae safonau o’r fath yn darparu meincnod cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer hyfforddiant ar gynorthwyo pobl sydd mewn gofid mewn lleoliadau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Hysbysu a grymuso ysgolion i fabwysiadu dulliau ataliol**, fel Gofal sy’n Ystyriol o Drawma a [Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol \(PBS\)](#), i sicrhau bod anghenion unigol plant a phobl ifanc yn cael eu bodloni a’u parchu mewn modd rhagweithiol, sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ystyriol o drawma.

Byddai Bild yn annog unrhyw un sy’n pryderu am yr arferion mewn darpariaeth gysylltu â’r rheoleiddwyr canlynol:

- Arolygiaeth Gofal Cymru – codi pryderon – <https://arolygiaethgofal.cymru/cysylltwch-ni/codi-pryder>
- Estyn (yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru) – [www.estyn.gov.wales/about-us#contactus](http://www.estyn.gov.wales/about-us#contactus) neu drwy anfon neges e-bost at [enquiries@estyn.gov.wales](mailto:enquiries@estyn.gov.wales)
- Y Comisiwn Ansawdd Gofal (gwasanaethau yn Lloegr yn unig) – adborth ar ofal – [www.cqc.org.uk/give-feedback-on-care](http://www.cqc.org.uk/give-feedback-on-care)
- Ofsted (i roi adborth ar ysgolion yn Lloegr) – [parentview.ofsted.gov.uk](http://parentview.ofsted.gov.uk)

Mae Rheolwr y Rhwydwaith Lleihau Ataliaeth Gorfforol a’r Ymgyrchydd Awtistiaeth, Alexis Quinn, wedi ysgrifennu postiad blog sy’n cynnwys ymateb pellach i’r sgandal hwn sy’n peri gofid. Darllenwch yr ymateb llawn yma:

<https://restraintreductionnetwork.org/uncategorized/restraint-reduction-network-responds-to-degrading-human-rights-abuse-allegations-at-residential-special-school-ty-coryton/>

I ymuno â chymuned Bild, dilynwch ni ar Twitter [@BILD tweets](#) neu hoffwch ni ar Facebook [@ukbild](#)

**-DIWEDD-**

### **Cyswllt gan y cyfryngau**

Os oes gennych ymholiad cyfryngau, neu os hoffech siarad â Phrif Swyddog Gweithredol Bild, sef Ben Higgins, neu'r Arweinydd Strategol Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol, sef yr Athro Edwin Jones, cysylltwch â Laura Smith a Lisa Church ar [jsmith@consiliumcommunications.co.uk](mailto:jsmith@consiliumcommunications.co.uk) / [lchurch@consiliumcommunications.co.uk](mailto:lchurch@consiliumcommunications.co.uk) neu ffoniwch 07467945848.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

- Mae Bild yn bodoli i hyrwyddo hawliau pobl awtistig ac unigolion ag anabledau dysgu.
- Ers 1971, cenhadaeth Bild fu gwella cymorth yn y gymuned, a datblygu'r sgiliau a'r diwylliant sy'n angenrheidiol i ddeall a bodloni anghenion pobl yn well mewn lleoliadau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, ac mewn gweithleoedd. Mae'n ceisio gwella ansawdd bywyd unigolion, a chyflawni newid parhaol trwy ddulliau wedi'u seilio ar dystiolaeth.
- Mae ystyr i bob ymddygiad. Mae dulliau cymorth ymddygiad cadarnhaol (PBS) Bild yn canolbwyntio ar yr unigolyn, i wneud i systemau a chymorth weithio i'r unigolyn hwnnw a gwella ansawdd ei fywyd.
- Nod cymorth ymddygiad cadarnhaol yw deall ymddygiadau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n achosi pryder neu sy'n heriol i wasanaethau, er mwyn deall beth maen nhw'n ei ddweud wrthym. O ganlyniad, gellir bodloni anghenion yr unigolyn mewn ffyrdd gwell. Yn aml, mae angen i'r ffordd y mae pobl yn cael eu cynorthwyo newid i gyflawni hyn, ac mae angen i'r prosesau hyn gael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr holl unigolion sy'n gysylltiedig.
- Dysgwch fwy am Bild trwy ymweld â [www.bild.org.uk](http://www.bild.org.uk)
- I gael gwybod mwy am ddulliau cymorth ymddygiad cadarnhaol, ymwelwch â [www.bild.org.uk/about-pbs](http://www.bild.org.uk/about-pbs)

### **Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol**

- Twitter: [@BILD tweets](#)
- Facebook: [@ukbild](#)
- LinkedIn: [www.linkedin.com/company/british-institute-of-learning-disabilities](http://www.linkedin.com/company/british-institute-of-learning-disabilities)